# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Croeso Ltd**

**Cartref Croeso Ltd**
**Pencader**
**SA39 9HL**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

01/05/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cartref Croeso Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cartref Croeso Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 15 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 20 Chwefror 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yn Cartref Croeso yn cael gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ansawdd uchel gan dîm sefydlog o staff gofalgar a phrofiadol. Caiff y staff eu harwain gan reolwr ymroddedig a chydwybodol sy'n cael ei gefnogi gan Unigolyn Cyfrifol profiadol. Mae'r cynlluniau personol a'r adolygiadau yn fanwl ac wedi'u creu ar y cyd â'r bobl a'u cynrychiolwyr. Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd, a gwrandewir arnynt. Ceir amgylchedd hamddenol a thawel sy'n cefnogi llesiant y bobl.

Mae'r cartref yn cael ei gynnal a'i gadw i safon uchel ac mae systemau ar waith i sicrhau bod yr adeilad a'r cyfarpar yn cael eu cadw'n ddiogel ar gyfer y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref, ac yn ymweld ag ef. Caiff y staff eu recriwtio'n ddiogel a chânt gymorth a hyfforddiant parhaus i ymgymryd â'u rôl. Mae polisïau ar gael i'r staff a'r unigolion, a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Caiff adroddiadau ar ansawdd y gofal eu llunio gan yr Unigolyn Cyfrifol yn nodi meysydd o gryfder ac unrhyw feysydd lle y gellir gwneud gwelliannau.

## Llesiant

Caiff hawliau'r bobl eu cynnal ac mae ganddynt reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael eu parchu a'u cefnogi i wneud penderfyniadau gan staff gofal caredig sy'n barod i helpu. Mae'r bobl yn codi/mynd i'r gwely pan fyddant yn dymuno gwneud hynny, yn aros yn eu hystafell eu hunain neu'n treulio amser yn yr ardaloedd cymunedol, ac yn dewis yr hyn y maent am ei fwyta drwy gydol y dydd. Caiff prydau bwyd eu paratoi a'u coginio â chynhwysion ffres ac os nad yw'r bobl yn hoffi'r hyn sydd ar y fwydlen ddyddiol, cynigir opsiwn arall iddynt. Gwelsom y bobl yn mwynhau amrywiaeth o fwyd i frecwast, gan gynnwys ffrwythau ffres. Dywedodd un person wrthym, "*I fancied some mushrooms, tomatoes, and eggs the other day and they cooked it for me. The food is fantastic."* Dywedodd person arall *"'X' gets tea and a sandwich in the middle of the night, it's the best place around".*

Caiff anghenion unigol eu cydnabod ac mae'r bobl yn cael eu cefnogi i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt. Roedd un person wedi gallu dod â'i chi i fyw gyda hi yn dilyn asesiad risg ac ymgynghoriad â phawb sy'n byw yn Cartref Croeso. Darperir gweithgareddau yn unol â dewisiadau ac anghenion y bobl. Gwelsom y bobl yn gwau, yn gwylio'r teledu, yn chwarae gêm o wyddbwyll, yn canu, yn sgwrsio, yn cael eu hewinedd wedi'u paentio ac yn mynd allan i gerdded ar dir y cartref yn ystod ein hymweliad. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau mynd ar deithiau o bryd i'w gilydd, i siopau coffi ac i bantomeim. Caiff y bobl eu hannog i leisio eu barn a'u dymuniadau. Cynhelir cyfarfodydd, dosberthir holiaduron, ac mae'r bobl yn cymryd rhan mewn adolygiadau o gynlluniau personol.

Caiff pwysigrwydd cynnal cydberthnasau â ffrindiau a theulu ei gydnabod, a gwelsom bobl yn ymweld drwy gydol y dydd. Dywedodd un person wrthym ei fod wedi deffro'n gynnar un bore ac wedi penderfynu ymweld am 6.30am, a'i fod wedi cael ei groesawu gan y staff. Dywedodd person arall wrthym fod y staff yn helpu ei berthynas i wneud galwad fideo ar lechen pan na fydd yn gallu ymweld yn bersonol. Gall ymwelwyr dreulio amser yn yr ardaloedd cymunedol neu yn ystafelloedd y bobl os byddant am gael mwy o breifatrwydd.

Mae systemau ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel a'u hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar weithdrefnau diogelu ac maent yn gwybod sut i roi gwybod am unrhyw bryderon a all fod ganddynt. Mae system recriwtio gadarn ar waith er mwyn sicrhau bod y staff gofal yn meddu ar y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i ymgymryd â'u rôl. Cynhelir gwiriadau hefyd a gofynnir am eirdaon er mwyn sicrhau eu bod yn addas i ddarparu gofal a chymorth i oedolion agored i niwed. Mae'r gwiriadau hyn yn cynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gwiriadau adnabod. Mae'r staff wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef yr awdurdod rheoleiddio ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a roddir iddynt. Dywedodd cynrychiolwyr wrthym, "*It's first class, everything is perfect"* ac "*It's absolutely brilliant, I only have praise for them (staff)".* Gwelsom y staff yn rhoi cymorth i berthnasau ac yn cael sgyrsiau sensitif, gan ddangos tosturi ac empathi. Mae'r staff yn fedrus iawn ac maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol a llawn ymddiriedaeth â'r bobl. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn rhagweld eu hanghenion, gan sylwi ar unrhyw newidiadau mewn modd amserol. Gwelsom sawl cerdyn diolch sy'n dangos bod y bobl yn gwerthfawrogi'r gofal ardderchog a roddir. Dywedodd un person wrthym, *"I settled straight away, they (staff) are so nice, nothing is too much. They come straight away to help (when I ring the call bell*)".

Cynhelir asesiadau cychwynnol ar y cyd â'r bobl, eu cynrychiolwyr a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol pan fo hynny'n briodol. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl iawn ac yn cynnwys hoff bethau a chas bethau'r bobl ym mhob maes gofal a chymorth. Dywedodd y bobl a'u cynrychiolwyr wrthym yr ymgynghorir â nhw'n rheolaidd pan fydd anghenion gofal a chymorth yn newid. Gwelsom dystiolaeth bod y bobl yn cael eu cynnwys yn y broses adolygu ac y caiff adolygiadau eu cynnal yn rheolaidd. Mae gwelliannau wedi'u gwneud yn y maes hwn ers yr arolygiad blaenorol. Mae safbwyntiau'r bobl yn bwysig a bydd y darparwr yn gwneud ei orau i ddiwallu anghenion y bobl a bodloni eu dewisiadau. Mae'r cofnodion yn dangos y caiff asesiadau risg eu cynnal i hyrwyddo annibyniaeth, gan gadw'r bobl mor ddiogel â phosibl. Caiff cofnodion dyddiol manwl eu cadw ar system gyfrifiadurol ac maent yn cynnwys gwybodaeth am y cymorth a roddwyd. Caiff y rhain eu cwblhau gan y staff mewn amser real.

Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae rhai aelodau o'r staff yn siarad Cymraeg ac mae'r rhai nad ydynt yn rhugl wedi dysgu geiriau ac ymadroddion syml. Clywsom sgyrsiau rhwng y staff a'r unigolion yn Gymraeg ynghyd â chaneuon Cymraeg yn cael eu canu. Mae dogfennau ar gael yn Gymraeg ar gais a gall y bobl wrando ar radio Cymru a gwylio rhaglenni teledu Cymraeg.

Mae system gadarn ar waith ar gyfer storio a rhoi meddyginiaeth yn ddiogel. Mae'r cofnodion rhoi meddyginiaeth wedi cael eu newid i system ar-lein yn ddiweddar, sy'n darparu cofnodion cywir iawn ac a fydd yn nodi ac yn rhoi gwybod i'r uwch-aelodau o'r staff am unrhyw gamgymeriadau ar unwaith. Mae polisi meddyginiaeth cyfredol ar waith ac mae'r uwch-aelodau o'r staff wedi cael hyfforddiant ar roi meddyginiaeth. Roedd storio meddyginiaeth yn faes i'w wella yn ystod yr arolygiad diwethaf, ac mae bellach wedi cael ei gyflawni.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn gartrefol ac mae'n cefnogi llesiant y bobl. Caiff ei gynnal a'i gadw i safon uchel ac mae'r décor yn lân ac yn gyfforddus. Caiff cerddoriaeth gefndir ymlaciol ei chwarae ar lefel sy'n galluogi'r bobl i siarad. Ceir ardaloedd cymunedol mawr i'r bobl ymlacio a chymdeithasu neu wylio'r teledu. Mae'r ardal fwyta yn olau ac yn groesawgar. Mae safon uchel yr amgylchedd a'r sylw at fanylder yn dangos ymrwymiad i wneud y cartref yn ddymunol i'r bobl sy'n byw yn Cartref Croeso. Gwelsom fod y bwrdd bwyta wedi'i osod ar gyfer cinio, gyda napcynnau, bwydlenni wedi'u hargraffu a blodau mewn fâs. Mae'r gegin yn lân ac yn ymarferol ac mae wedi ennill sgôr o bump yn dilyn arolygiad Iechyd yr Amgylchedd. Mae ystafelloedd gwely'r bobl wedi'u haddurno yn unol â'u chwaeth eu hunain a gwelsom eitemau personol wedi'u harddangos, ac roedd rhai o'r bobl wedi dod â'u dodrefn eu hunain.

Mae garddwr wedi'i gyflogi i gynnal a chadw'r ardal awyr agored. Ceir twnnel polythen lle y gall y bobl gael cymorth i dyfu llysiau. Cedwir ieir hefyd. Ceir nifer o ardaloedd awyr agored yn yr ardd ac o'i hamgylch lle y gall y bobl eistedd ac ymlacio. Ceir llwybr cerdded diogel o amgylch tir y cartref. Mae caban pren wedi'i droi'n fistro, lle y gall y bobl eistedd gyda'u teuluoedd mewn amgylchedd cymdeithasol. Nid yw'r caban hwn yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd, ond mae cynlluniau i'w ddefnyddio eto yn ystod yr haf.

Mae'r adeilad yn ddiogel, mae'r staff yn agor y drws i ymwelwyr a defnyddir llyfr cofrestru. Cynhelir gwiriadau ac archwiliadau o'r adeilad a'r cyfarpar er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ar gyfer y bobl, y staff ac ymwelwyr. Mae hyn yn cynnwys archwilio a gwasanaethu'r cyfarpar codi a chario a'r offer diffodd tân. Gwelsom nad oedd unrhyw rwystrau yn ardal yr allanfeydd tân. Caiff sylweddau peryglus i iechyd eu cloi mewn cypyrddau, yn unol â'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH). Mae cyfyngwyr ar y ffenestri ym mhob un o'r ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd ymolchi a welsom.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Ceir tîm cadarn o staff sy'n cael ei arwain gan reolwr cefnogol ac angerddol iawn sy'n hawdd mynd ato. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y rheolwr a'r darparwr yn fawr, a dywedodd un aelod o'r staff wrthym, "*You can talk to them (rheolwr) and they don't mind getting their hands dirty when you need help*". Dywedodd aelod arall o'r staff, "*They will always find a way to work around a problem".*

Mae ethos a gwerthoedd y rheolwr sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn treiddio drwy'r tîm o staff a cheir ymrwymiad uchel i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i'r bobl. Ceir trosiant staff isel, sy'n cyfrannu at dîm cadarn ac effeithiol sy'n cynnig parhad gofal i'r bobl. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym, *"I am proud to work here, it's easy to work here, it's a nice atmosphere".* Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniad blynyddol, sy'n rhoi cyfle iddynt fyfyrio ar eu hymarfer a nodi unrhyw feysydd lle mae angen hyfforddiant neu gymorth. Mae'r staff yn cael hyfforddiant gorfodol yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf. Dywedodd aelod o'r staff, "*They (rheolwr) are so supportive, they encouraged me to do my level 3 and now we are discussing doing level 4 (Cymhwyster Gofal Cymdeithasol)".* Roedd y ffeiliau staff y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys y wybodaeth gywir sy'n ofynnol yn gyfreithiol.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio ac yn llywodraethu'r gwasanaeth yn ardderchog ac yn ymweld yn rheolaidd. Gwelsom gofnodion o ymweliadau chwarterol yr Unigolyn Cyfrifol sy'n dangos yr ymgynghorir â'r bobl a'r staff. Mae'r adroddiadau sicrhau ansawdd y gofal yn dangos bod systemau ar waith i archwilio, asesu a nodi meysydd sy'n gweithio'n dda a meysydd lle y gellir gwella lefel y gofal a chymorth. Gwnaethom edrych ar bolisïau allweddol a'r Datganiad o Ddiben, sy'n cynnwys y wybodaeth berthnasol. Rhoddir gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru, fel sy'n ofynnol, am unrhyw ddigwyddiadau adroddiadau fel honiadau o gam-drin yn ymwneud â'r darparwr a/neu aelod o'r staff ac unrhyw ddigwyddiadau difrifol, anafiadau neu salwch unigolyn. Roedd hyn yn faes i'w wella yn ystod yr arolygiad blaenorol ac mae bellach wedi cael ei unioni.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 58 | Ni chaiff meddyginiaeth ei storio'n briodol heb beri risg o gael ei halogi. | Cyflawnwyd |
| 60 | Nid oedd rheoliad 60 wedi'i ddilyn ers mis Ionawr 2022 ac nid yw'r rheolwr wedi'i gynnwys ar y system i'w gwblhau | Cyflawnwyd |
| 16 | Ni chaiff gwybodaeth am ganlyniadau'r bobl eu nodi'n fanwl yn yr adolygiadau, nac ychwaith wybodaeth am y broses o gynnwys y bobl yn ystod eu hadolygiadau. | Cyflawnwyd |

### A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 14/06/2024